# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Credyd Cynhwysol

## Gwasanaethau Cymorth Lleol Prosbectws Datganiad o Ddiddordeb Treialu

Mai 2014 Fersiwn 2

# Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad .... 3

Adran 2: Cefndir .... 3

Adran 3: Nodau ac amcanion .... 5

Adran 4: Cymhwyster a dewis treialon .... 5

Adran 5: Cynnwys a ffocws y treialon .... 7

Adran 6: Gwerthusiad o'r treialon .... 10

Adran 7: Cyllid ac adnoddau .... 12

Adran 8: Gweithio gyda phartneriaid eraill .... 12

Adran 9: Llywodraethu, cefnogaeth ac atebolrwydd .... 13

Adran 10: Y camau nesaf a gweithdy Datganiad o Ddiddordeb .... 13

Atodiad A: Beth fydd treialon Gwasanaethau Cymorth Lleol cadarn yn cwmpasu .... 15

Atodiad B: Trosolwg o feysydd dysgu .... 23

Atodiad C: Templed Datganiad o Ddiddordeb .... 25

Atodiad Ch: Proses Asesu a Meini Prawf y Datganiad o Ddiddordeb .... 32

Atodiad D: Meini prawf llwyddiant Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer Credyd Cynhwysol .... 36

Atodiad Dd: datblygwyd Enghraifft o Arfer Da gan gynlluniau peilot a arweinwyd gan yr ALl .... 38

# Adran 1: Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon ar eich cyfer os:
   - Ydych yn gweithio i Ganolfan Byd Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Awdurdod Lleol (ALl) lle nad yw Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, ac ni fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod treialu 12 mis nesaf, ac rydych yn awyddus i dreialu llawer o elfennau o'r Gwasanaethau Cymorth Lleol a nodir yn **Atodiad A**;
   - Gall eich partneriaeth Adran Gwaith a Phensiynau / ALl ymrwymo i gefnogi treial am 12 mis;
   - Byddai diddordeb gan eich partneriaeth Adran Gwaith a Phensiynau/ALl mewn mynychu digwyddiad Datganiad o Ddiddordeb i ddatblygu eich cynigion treialu ymhellach ac yna gllwch gyflwyno'r templed Datganiad o Ddiddordeb i dreialu erbyn diwedd **13 Mehefin 2014;**
   - Nid ydych yn siŵr os byddai eich partneriaeth Adran Gwaith a Phensiynau/ALl yn hoffi bod yn rhan o dreialu cadarn y Gwasanaethau Cymorth Lleol, ond yn awyddus i gael gwybod mwy; a
   - Nid yw eich partneriaeth yn bwriadu treialu Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn gadarn dros y 12 mis nesaf ond hoffech gael gwybod mwy am yr ymagwedd i'ch hysbysu o weithgareddau eich partneriaeth eich hunain.

# Adran 2: Cefndir

2. Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn gynnyrch o weithio ar y cyd rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chymdeithasau Awdurdodau Lleol i ddatblygu dull gweithredu sy'n sicrhau bod y rhai sydd angen cefnogaeth i wneud a rheoli cais am Gredyd Cynhwysol yn ei dderbyn. Mae'r cymorth yn cael ei deilwra i anghenion y boblogaeth leol ac yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Canolfan Byd Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol (ALlau).

3. Cyhoeddwyd y Fframwaith cyntaf ym mis Chwefror 2013 a'r Cynllun Diweddariad a Threialu ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r Cynllun Treialu yn cydnabod y cyfleoedd a grëir gan ail-osod Credyd Cynhwysol, i dreialu elfennau a dysgu mwy am wasanaethau cymorth lleol cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn. Bydd y dysgu yn llywio fersiwn terfynol y Fframwaith a phenderfyniadau am ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol yn achos busnes amlinellol y Credyd Cynhwysol yn 2015 ac achos busnes llawn Credyd Cynhwysol.

4. Mae 4 elfen allweddol o ddysgu a fydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu egwyddorion Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn ystod y 12-18 mis nesaf – nid yn unig treialu. Yn gryno maent yn:

1) **Safleoedd treialu cadarn** – dewiswyd nifer fechan o safleoedd yn dilyn proses Datganiad o Ddiddordeb (templed yn amgaeedig yn **Atodiad C**), yn profi nifer o elfennau Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Bydd allbynnau trylwyr yn llywio'r fersiwn terfynol o'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol, achos busnes Credyd Cynhwysol a Rhaglen Profi a Dysgu Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Y maes hwn yw prif ganolbwynt y prosbectws hwn a bydd yn amodol ar werthusiad annibynnol a gomisiynwyd yn allanol.
2) **Safleoedd treialu anffurfiol –** safleoedd sydd yn treialu elfennau, neu elfen, o egwyddorion y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn annibynnol ond nid oes terfyn ar nifer y safleoedd hyn ac nid oes adnoddau gwerthuso yn cael ei ddarparu. Nid yw safleoedd yn cael eu dewis drwy'r broses Datganiad o Ddiddordeb ac mae casglu dysgu/gwerthusiad yn gyfrifoldeb y bartneriaeth.
3) **Safleoedd gwasanaeth Credyd Cynhwysol Gweithredol –** cyfle i ddysgu am wasanaethau cymorth lleol mewn amgylchedd Credyd Cynhwysol gweithredol.
4) **Datblygu partneriaethau parhaus –** gwaith ar draws pob partneriaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threialu, i ymestyn eu paratoadau ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.

5. Mae **Atodiad B** hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth bellach ar y meysydd hyn.

6. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y gall partneriaethau ddod yn rhan o dreialu cadarn egwyddorion Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (elfen 1). Bydd gwybodaeth am yr elfennau eraill yn cael eu darparu trwy gyfathrebu parhaus i Ddosbarthau Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol; rydym yn awyddus i holl bartneriaethau ymgymryd â gweithgarwch i baratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.

7. Argymhellir yn gryf eich bod yn darllen y ddogfen hon ar y cyd â:

- Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/181395/uc-local-service-support-framework.pdf
- Cynllun Diweddariad a Threialu Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/263490/universal-credit-local-support-services-update-trialling-plan.pdf

# Adran 3: Nodau ac amcanion

8. Bydd canlyniadau'r gweithgarwch treialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn galluogi gwerthusiad cynnar o egwyddorion gwasanaethau cymorth lleol o ran sut rydym yn gallu cefnogi orau'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i wneud a rheoli cais am Gredyd Cynhwysol, a llywio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith yn y dyfodol.

9. Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn rhan graidd o'r dull Profi a Dysgu Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn dwyn ynghyd gwaith ar draws yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu dysgu ar nifer o wasanaethau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Chredyd Cynhwysol, gyda ffocws ar ddarparu tystiolaeth gadarn i gefnogi penderfyniadau strategol ac ariannu yn y dyfodol. Mae'r elfen hon o dreialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol felly yn canolbwyntio ar sicrhau canfyddiadau trylwyr i fwydo i'r rhaglen hon o waith.

# Adran 4: Cymhwyster a dewis treialon

10. Rydym yn bwriadu dewis tua 6 o bartneriaethau i dreialu gwasanaethau cymorth lleol ochr yn ochr â phecyn clir o ddysgu o safleoedd treialu anffurfiol yn ogystal â safleoedd gwasanaeth byw.

11. Rydym yn bwriadu cynnal o leiaf 1 treial yn yr Alban ac1 yng Nghymru. Efallai y bydd mwy o dreialon yn y naill leoliad neu'r llall os yw hyn yn rhoi cyfle i wneud y gorau o ddysgu a dyfnder o brofiadau. Bydd ein meini prawf asesu yn cymryd i ystyriaeth y ddaearyddiaeth (h.y. trefol/gwledig) a demograffeg y partneriaethau dan sylw i uchafu'r dysgu o'r treialon.

12. **Rhaid** i'r Datganiad o Ddiddordeb **gael ei gyflwyno ar y cyd gan y bartneriaeth Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Lleol –** ni fyddwn yn derbyn templedi o ddim ond un partner arweiniol, neu bartner arweiniol a darparwr gwasanaeth cefnogi arall.

13. Mae Partneriaethau sydd eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgaredd treialu arall yn cael eu hannog i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Mae gennym ddiddordeb i glywed gan y rhai sy'n ymwneud â mentrau ychwanegol a allai fod yn berthnasol i Wasanaethau Cymorth Lleol, megis y rhaglen Teuluoedd a Phroblemau, Pibell Sgiliau Strategol (Yr Alban) neu'r rhai sy'n cael mynediad i ffrydiau ariannu ehangach y gellir eu defnyddio i gefnogi gweithgarwch Gwasanaethau Cymorth Lleol, megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Lloegr a'r Gronfa Cymorth Hyblyg. Mae lle i ddweud wrthym am hyn ar y templed Datganiad o Ddiddordeb er mwyn i ni allu deall mwy am beth mae hyn yn ei olygu i'ch treial Gwasanaethau Cymorth Lleol. Byddwn angen sicrhau y byddwn yn gallu casglu canfyddiadau clir mewn perthynas â'r Fframwaith Gwasanaethau Lleol penodol.

14. Rydym yn disgwyl y byddai partneriaethau sy'n ymwneud â gweithgaredd dreialu cysylltiedig eraill mewn sefyllfa i ddatblygu gwybodaeth llinell sylfaen effeithiol i gefnogi gwerthusiad trylwyr o'u treial Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol.

15. Rydym yn awyddus i gasglu dysgu o safleoedd gwasanaeth Credyd Cynhwysol gweithredol a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy wrth ymhelaethu ar ein canfyddiadau ymhellach. Fodd bynnag, bydd hyn drwy faes dysgu ar wahân (**Atodiad B**). Ni fydd ymgysylltiad drwy'r broses Datganiad o Ddiddordeb ac ni fydd safleoedd gwasanaeth gweithredol yn cael eu dewis ar gyfer yr haen hon o'r treialu.

16. Dylai partneriaethau sydd â diddordeb gyflwyno eu Datganiad o Ddiddordeb wedi'i llenwi i fewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (LSS.FrameworkTeam@dwp.gsi.gov.uk) yn dilyn y gweithdy Datganiad o Ddiddordeb. Rhaid i'r Datganiadau o Ddiddordeb cael eu cyflwyno dim hwyrach na diwedd 13 Mehefin 2014. Ni fydd ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

17. Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y safleoedd treialu cadarn terfynol yn dilyn proses atebol, yn erbyn y meini prawf ynghlwm yn **Atodiad Ch**. Bydd Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu hasesu gan banel cynrychioliadol o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymdeithasau Awdurdodau Lleol ac eraill. Bydd penderfyniadau yn cael eu hanfon yr wythnos sy'n dechrau 30 Mehefin 2014.

18. Bydd y dewis yn seiliedig ar y Datganiad o Ddiddordeb ysgrifenedig yn unig ac felly bydd y cyflwyniadau mwyaf cynhwysfawr a chyda thystiolaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus.

19. Yna bydd y safleoedd sydd wedi eu dewis yn dechrau eu gweithgarwch paratoi a bydd gwerthusiad sylfaenol yn digwydd. Rhaid i'r safleoedd fod yn gallu ymrwymo i roi eu treial ar waith yn gyflym – mae hyn yn un o'r meini prawf asesu'r Datganiad o Ddiddordeb – ac erbyn dechrau Medi 2014 fan bellaf.

# Adran 5: Cynnwys a ffocws y treialon

20. Rydym yn awyddus i ddangos bod buddsoddi mewn gwasanaethau lleol i gefnogi'r rhai sydd ei angen, yn helpu i drawsnewid bywydau ac yn rhoi gwerth am arian drwy:

    - gwella cyfrifoldeb ariannol – gan arwain i fwy o bobl allu rheoli'r taliad misol safonol;
    - gwella cynhwysiant digidol – drwy symud hawlwyr yn agosach i waith ac fel galluogwr i reoli eu perthynas â Chredyd Cynhwysol digidol; a
    - dod â phobl yn agosach i waith.

21. Rydym yn awyddus i brofi'r mewnbynnau a fydd yn ein helpu i gyflawni hyn:

    - Dylunio'r 3 'gwasanaeth' allweddol - brysbennu, PBS a chynhwysiant digidol.
    - Partneriaeth, rhannu data a modelau ariannu i gefnogi cyflwyno gwasanaethau allweddol – gan gynnwys y prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau o gwmpas y rhain.

22. Bydd treialu hefyd yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach rhagdybiaethau allweddol am niferoedd a chostau uned i fireinio ein dealltwriaeth o'r gost i ddarparu gwasanaethau cymorth lleol.

23. Bydd yn ofynnol i bob partneriaeth cael gweithio mewn partneriaeth mewn lle fel sylfaen i'w treial, fel y gallwn ddysgu mwy am sut mae partneriaid arweiniol yn gweithio yn effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau cymorth lleol. Bydd yn rhaid i bartneriaethau hefyd amlinellu eu cynlluniau i rannu data yn ddiogel fel un o brif feini prawf cymhwyster (**Atodiad D**).

24. Y tu hwnt i hyn, rydym yn bwriadu treialu dau fodel ariannu gwahanol a gwahanol ddulliau o frysbennu, cynhwysiant digidol a gwasanaethau cynhwysiant ariannol. Wrth ystyried dyluniad y gwasanaethau hyn, dylai partneriaethau ystyried nifer o gwestiynau rydym yn edrych i'r treialon eu hateb. Nodir y rhain yn y tabl yn **Atodiad A**.

25. Er mwyn darparu digon o sylw i holl elfennau'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol a lle mae'n ofynnol iddo sicrhau y gall gwerthusiad cadarn digwydd, efallai y byddwn yn gofyn i bartneriaethau i addasu neu fireinio rhai elfennau o'u treial. Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, ein bod wedi rhagnodi modelau gwasanaethau rydym yn dymuno cael eu profi.

26. Nid oes rhaid i bartneriaethau dreialu'r holl elfennau a nodir yn **Atodiad A**. Fodd bynnag, er mwyn i'r treial dangos sut bydd y Fframwaith Gwasanaethau Lleol yn debygol o weithio pan fydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno yn llawn a darparu digon o ddysgu, byddwn yn chwilio am Ddatganiadau o Ddiddordeb sy'n cwmpasu o leiaf ddau o'r 'gwasanaethau' allweddol (brysbennu PBS a chynhwysiad digidol). **Mae Atodiad A** yn nodi'r nifer lleiaf o enghreifftiau yr ydym yn disgwyl i dreialu, drwy edrych ar draws y grŵp cyfan o bartneriaethau dan sylw.

## Treialu Brysbennu

27. Gall partneriaethau ddewis sut y bydd brysbennu yn gweithio ar draws eu sefydliadau ar yr amod y bydd y dull yn sicrhau dysgu mewn ymateb i'r cwestiynau allweddol a nodir yn **Atodiad A**.

28. **Mae Atodiad Dd** yn nodi enghraifft o arfer da a ddatblygwyd gan y cynlluniau peilot a arweinir gan ALl sy'n dangos sut y gall proses brysbennu hidlo hawlwyr cymhleth ac sy'n agored i niwed i'r gefnogaeth iawn.

29. Mae i fyny i bartneriaethau i benderfynu pa wasanaeth y byddant yn ei ddarparu i wella sgiliau digidol ac ariannol hawlwyr. Mae enghreifftiau o ymarfer da y gallai partneriaethau fod am adeiladu arnynt yn cael eu darparu yn y Cynllun Diweddariad a Threialu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bartneriaethau allu casglu tystiolaeth a fydd yn darparu atebion i'r cwestiynau a osodir yn **Atodiad A**.

## Treialu gweithio mewn partneriaeth

30. Mae**Atodiad A** yn nodi'r agweddau o weithio mewn partneriaeth a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y treialon, gan gynnwys gwahanol fodelau y gellir eu defnyddio, cael gafael ar ffynonellau ariannu, asesu a mapio gwasanaethau, rhannu data a chyd-leoli.

31. Mae tystiolaeth gadarn a grymus ynglŷn ag effeithiolrwydd cyd-leoli o ran darparu diwygio lles a chefnogi teuluoedd bregus, mewnwelediad allweddol sy'n deillio o'r Cynlluniau Peilot a arweinir gan ALl. Rydym yn dymuno archwilio cyd-leoli fel arfer da ar gyfer partneriaethau yn y dyfodol, gan gydnabod bod hyn yn gofyn am drefnu ystadau lleol, data a darpariaeth sydd ar gael i wasanaethu buddiannau i'r ddwy ochr yn greadigol. Rydym yn croesawu Datganiadau o Ddiddordeb sy'n archwilio cyd-leoli fel nodwedd graidd o lunio partneriaethau lleol a'r treial arfaethedig.

32. Mae'r cynlluniau peilot a arweinir gan ALl a phrofiadau partneriaeth ehangach yn dangos y ffyrdd arloesol y gall cyd-leoli gael eu gweithredu a'u defnyddio, o lyfrgelloedd i ganolfannau gwaith a hwb yr ALl, gan fanteisio ar nodweddion allweddol ar gyfer cyflwyno brysbennu lleol a gwasanaethau wedi'u cydlynu. Gall cyd-leoli helpu i adnabod golwg cyfannol ar anghenion cymorth cartref, gan alluogi ymyrraeth gynnar effeithiol i gyflawni gwell canlyniadau – rydym yn awyddus i werthuso yn union – gan gynnwys effeithlonrwydd trefniadau o'r fath, o gynilion ystâd i brosesu yn y cefndir. Rydym yn gwerthfawrogi, o ystyried y ddeddfwriaeth bresennol, bydd angen cytuno yn lleol wrth i ni ddefnyddio dysgu ac arfer da i gynghori Gweinidogion ar yr ateb i rannu data strategol sydd ei angen yn y tymor hir.

## Treialu'r modelau ariannu

33. Efallai y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid cyfyngedig ar gyfer gwasanaethau i alluogi partneriaethau treialu i weld sut bydd y modelau ariannu yn cefnogi cyflenwi Gwasanaethau Cymorth Lleol. Dylai partneriaethau gynnwys yn eu Datganiad o Ddiddordeb os oes angen cyllid ychwanegol arnynt i ddarparu'r gwasanaeth.

34. Mae dau fodel yn cael eu profi – y model gwarantedig/gweithgaredd/canlyniad a model ariannu bloc. Mae mwy o fanylion ar y modelau hyn i'w gweld yn y Cynllun Diweddariad a Threialu.

35. Yn y ddau fodel bydd arian yn cael ei reoli gan y bartneriaeth, a fydd yn cyd-weithio i benderfynu ar sut y bydd yr arian yn cael ei wario. Cynhelir yr arian gan Reolwr Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, yn wahanol yn y model gwarantedig/gweithgaredd/canlyniad, yn y model ariannu bloc caiff swm cyffredinol eu pennu ar gyfer darparu gwasanaeth nad yw'n ddibynnol ar ganlyniadau'r gwasanaeth hwnnw.

## Maint y treial

36. Er mwyn casglu cymaint o dystiolaeth dibynadwy a dilys ag y gallwn o'r treialon rydym yn ddelfrydol yn chwilio i bob partneriaeth i gynnwys tua 2000 o hawlwyr fel rhan o'i dreial.[1]

37. Gall yr hawlwyr hyn gael anghenion gwahanol neu anghenion cymhleth ond dylai gynrychioli'r mathau o hawlwyr sy'n debygol o fod angen Gwasanaethau Cymorth Lleol fel bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei weithredu. Gallant gynnwys hawlwyr sy'n derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau presennol, a daw ynghlwm fel rhan o'r Credyd Cynhwysol[2].

38. Ni fyddwn yn diystyru treialon sy'n bwriadu cynnwys llai na'r ffigwr hwn ond bydd yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis partneriaethau.

---

<?> Bydd hyn yn darparu canfyddiadau ystadegol arwyddocaol, nid yn unig ar gyfer yr holl hawlwyr, ond hefyd er mwyn caniatáu dadansoddiad manwl yn ôl is-grŵp er enghraifft, grwpiau sy'n agored i niwed neu cdemograffig penodol.

<?> Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, Cymhorthdal Incwm, Credydau Treth Plant, Credydau Treth Gwaith, Budd-dal Tai.

# Adran 6: Gwerthusiad o'r treialon

## Adnoddau Gwerthuso

39. Rydym yn bwriadu ymgymryd â monitro a gwerthuso annibynnol i asesu'r treialon. Bydd contractwyr ymchwil allanol annibynnol o'r Fframwaith Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cael eu penodi i gynnal y gwerthusiad, a chynorthwyo i ddatblygu cynllun ymchwil priodol. Bydd y gwerthuswr allanol yn cefnogi partneriaethau i ddarparu tystiolaeth ar ba mor llwyddiannus oedd pob treial yn cyflawni eu hamcanion. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

40. Bydd y gwerthusiad yn cwmpasu'r ystod o bartneriaethau mewn chew ardal awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd y gwerthusiad yn gwneud defnydd o arolygon a dadansoddi pwrpasol, data gweinyddol a ffynonellau data eilaidd ac yn archwilio profiad hawlwyr, staff y Ganolfan Byd Gwaith, staff yr awdurdod lleol (e.e. Budd-daliadau, tai a gwasanaethau cymdeithasol, landlordiaid/rheolwyr tai eraill a chynghorwyr) a datblygu rhagdybiaethau allweddol am niferoedd a chostau uned i fireinio ein dealltwriaeth o'r gost i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Lleol.

41. Rydym yn disgwyl i'r monitro a gwerthuso i gael ei wneud dros gyfnod o ddeuddeg mis o Fedi 2014, gyda gwaith paratoadol yn digwydd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst.

## Ymrwymiad y bartneriaeth i werthuso

42. Er mwyn sicrhau gwerthusiad trylwyr o'u cyflawni a chanlyniadau, bydd yn ofynnol i bartneriaethau gydweithredu'n llawn â'r gwerthusiad a gomisiynwyd yn allanol fel amod o gael eu derbyn. Bydd disgwyl i bartneriaethau weithio tuag at bwynt gwerthusiad 6 mis o'r cychwyn – tua mis Chwefror/Mawrth 2015 – i arwain dysgu am wasanaethau cymorth lleol mewn da bryd. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i ddysgu yn y treialon hyd yn hyn ac yn bwydo i mewn i'r cyhoeddiad nesf o'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol, achos busnes amlinellol Credyd Cynhwysol ac achos busnes llawn dyfodol Credyd Cynhwysol.

43. Yn dilyn y pwynt gwirio 6 mis, bydd y garreg filltir bwysig nesaf ar gyfer gwerthuso ar 12 mis ym mis Medi 2015, er mwyn llywio'r fersiwn terfynol o'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Felly, rhaid i'r treialon rhedeg am 12 mis.

44. Bydd disgwyl i bartneriaethau, fel y gofyniad lleiaf, ddarparu 6 adroddiad misol o ddysgu gyda phwyntiau adolygiad llai manwl bob yn ail fis. Gall partneriaethau ddewis i barhau gyda'r elfennau maent wedi eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod treialu ffurfiol cael ei gwblhau, a gall gweithgarwch gwerthuso ddigwydd y tu hwnt i'r dyddiad hwn, ond nid yw hyn yn orfodol ac ni fydd cyllid ar gyfer hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r treial.

45. Mae gwerthuso effeithiol yn hanfodol i ddatblygu'r dysgu sydd ei angen arnom o dreialu egwyddorion y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Bydd cael y data cywir i alluogi'r gwerthusiad hwn yn allweddol ac mae'n rhaid i'r bartneriaeth allu gefnogi'r gweithgaredd. Fel rhan o'r cynnig, dylai partneriaid amlinellu sut y byddant yn monitro a mesur eu treial i gefnogi hyn, gan nodi'r syniadau cychwynnol yn y Datganiad o Ddiddordeb.

46. Mae'n cael ei gydnabod bod rhai elfennau o'r treial yn anoddach i'w gwerthuso trwy ddulliau meintiol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei gydnabod fel sylfaen i ddarparu gwasanaethau i hawlwyr sydd angen cymorth ond yn heriol i werthuso'n union gywir. Felly, dylai partneriaethau sicrhau, yn ogystal â darparu dysgu am weithio mewn partneriaeth, mae ffocws gwirioneddol ar sicrhau canlyniadau ystyrlon (**Atodiad A**) am y gwasanaethau a ddarperir.

47. Mae gennym ddiddordeb i glywed gan bartneriaethau o ran lle y gallant fod yn gallu darparu grŵp rheoli a defnyddio samplu ar hap i bennu poblogaeth ar gyfer y treial, i gryfhau canfyddiadau am effaith y gwasanaethau a gynigir i hawlwyr. Ni fydd Grwpiau Rheoli a samplu ar hap yn cael eu gorfodi, ond bydd y meini prawf asesu hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddewis y safleoedd ar gyfer treialu.

48. Gan fod y treialon yn ceisio dangos manteision y ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn, mae grŵp rheoli yn darparu cymharydd. Fodd bynnag, ni ddylai cymorth sydd ei angen gan statud i hawlwyr yn y grŵp rheoli gael ei ddileu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw hawlydd mewn perygl o ganlyniad i fod yn y grŵp hwn.

# Adran 7: Cyllid ac adnoddau

49. I gefnogi'r gweithgaredd hwn bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid ar gyfer costau gweinyddol rhesymol ac os oes angen, cyllid ar gyfer rheolwr prosiect ar gyfer cyfnod y treial. Bydd yn fater i'r bartneriaeth i benderfynu lle lleolir y rheolwr prosiect (h.y. wedi'i gyflogi naill ai gan yr ALl neu'r Ganolfan Byd Gwaith), fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt weithio'n agos gyda phartneriaid a'r tîm gwerthuso. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y treial yn rhedeg yn effeithiol a bod yr Ystadegau mae'r tîm gwerthuso ei angen ar gael.

50. Gall arian gael ei ddarparu hefyd i alluogi'r modelau ariannu i gael eu profi ac ar gyfer darparu gwasanaethau newydd fel rhan o'r treial. Dylai'r bartneriaeth nodi yn eu Datganiad o Ddiddordeb faint o arian sydd ei angen arnynt, pam na all hyn gael ei ariannu drwy adnoddau presennol a pha fodel ariannu maent yn bwriadu ei dreialu (**gweler Atodiad A**).

51. Gofynnir i bartneriaid i ddarparu enghreifftiau o fudd-daliadau neu effeithlonrwydd, naill ai o ran adnoddau ariannol neu ddynol, maent yn rhagweld sydd eu hangen o ganlyniad i dreialu a gweithio mewn partneriaeth. Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod gwahanol raddau o sicrwydd a manylion y bydd partneriaethau yn gallu darparu. Bydd angen i bartneriaethau i ddarparu tystiolaeth wrth gyflwyno effeithlonrwydd/ buddion y rhain yn ystod oes y treial.

# Adran 8: Gweithio gyda phartneriaid eraill

52. Er bod yn rhaid i'r Datganiadau o Ddiddordeb cael ei gyflwyno gan bartneriaid arweiniol yr Adran Gwaith a Phensiynau/ALl, rydym yn awyddus i dreialon gynnwys llawer o ddarparwyr gwasanaethau cymorth lleol eraill, i greu tystiolaeth bellach o ran sut y gall gwasanaethau cefnogi lleol weithio yn y dyfodol a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth asesu Datganiadau o Ddiddordeb.

53. Mae'r templed Datganiad o Ddiddordeb yn gofyn i bartneriaethau i nodi enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth effeithiol flaenorol yn ogystal â phartneriaethau rydych yn bwriadu eu sefydlu.

54. Rhaid i bartneriaethau nodi'n fanwl sut y maent yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill yn eu Datganiad o Ddiddordeb ac mae'n ofynnol i atodi llythyr o gymeradwyaeth oddi wrth bob un o'r sefydliadau hynny i'r Datganiad o Ddiddordeb a chwblhawyd. Bydd methiant i wneud hynny yn arwain i'r Datganiad o Ddiddordeb ddim yn cael eu gwerthuso. Mae hyn yn sicrhau bod treialon dim ond yn cael eu cytuno arno lle mae pob partneriaid allweddol yn y cynnig yn gefnogol i'r dull a gynlluniwyd.

# Adran 9: Llywodraethu, cefnogaeth ac atebolrwydd

55. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi swm penodol o arian, os oes angen, i gefnogi rôl rheolwr prosiect o fewn pob partneriaeth i gefnogi'r treialu. Mater i'r bartneriaeth yw i benderfynu pwy fydd y rheolwr prosiect yn cael ei gyflogi ganddynt.

56. Bydd partneriaethau hefyd yn cael eu cefnogi yn fwy cyffredinol gan Reolwr Cydberthnasau'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Bydd pob Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau (7 i gyd ar draws Prydain Fawr) yn cael Rheolwr Perthynas sy'n gyfrifol am gefnogi cynnydd  datblygiad partneriaeth y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Bydd eu cylch gwaith yn ehangach na chefnogi safleoedd treialu unigol ond bydd yn darparu cyswllt rhwng y rhaglen ganolog o waith, y Gwasanaethau Cymorth Lleol a phartneriaethau yn eu hardal.

57. Bydd y gwerthusiad a gomisiynwyd yn allanol yn bwydo i mewn i'r strwythur llywodraethu cyfredol Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd yn ofynnol i bartneriaethau gydweithredu'n llawn gyda gwerthuswyr allanol a fydd yn cyd-lynu'r ymdrech werthuso gyffredinol. Bydd yn rhaid i unrhyw adroddiadau gwerthuso canolog gael eu cytuno gan Weinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau (yn unol â phrotocolau ymchwil arferol).

# Adran 10: Y camau nesaf a gweithdy Datganiad o Ddiddordeb

58. Os oes gan eich partneriaeth cynlluniau i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i dreialu gwasanaethau cymorth lleol, fe'ch anogir yn gryf i fynychu'r digwyddiad Datganiad o Ddiddordeb y bydd manylion yn cael eu darparu yn y seminar gwe.

59. Er mwyn cael y gorau allan o'r digwyddiad, rydym yn gofyn i chi fynychu mewn partneriaeth a dod gyda chi drafft gorffenedig o dempled Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer eich treial. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau ac i weithio gyda'ch gilydd i ddatblygu a gorffen eich cynlluniau pellach cyn cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb; rydym yn cynghori'n gryf nad yw partneriaethau yn aros ar ôl y digwyddiad cyn iddynt ddechrtau ddatblygu eu cynigion.

60. Os byddwch yn bwriadu dod i'r digwyddiad, anfonwch e-bost i fewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (LSS FrameworkTeam@dwp.gsi.gov.uk.), gan gynnwys enwau cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r ALl. Mae lleoedd yn y digwyddiad yn gyfyngedig, tan fydd niferoedd terfynol yn cael eu cadarnhau ni allwn dderbyn mwy na 2 fynychwyr y bartneriaeth ar hyn o bryd.

61. Dylai Datganiadau o Ddiddordeb wedi'i chwblhau gael ei ddychwelyd i fewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol heb fod yn hwyrach na diwedd **13 Mehefin 2014**. Ni ystyrir Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

62. Os na fydd eich partneriaeth yn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ond mae diddordeb gennych mewn bod yn rhan o rannu'r dysgu i gyfrannu at un o'r meysydd eraill, yn enwedig yr elfen treialu anffurfiol, cysylltwch â mewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Rydym yn archwilio ffyrdd i rannu arfer da rhwng partneriaethau yn rheolaidd, nid yn unig pan gyhoeddir y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol terfynol.

63. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am dreialu egwyddorion Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol sydd heb gael eu hateb gan y webinar, cysylltwch â fewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol.

# Atodiad A: Beth fydd treialon Gwasanaethau Cymorth Lleol cadarn yn cwmpasu

<table>
<tr><td colspan="3">Crynodeb o'r hyn y bydd treialon cadarn Gwasanaethau Cymorth Lleol yn eu cwmpasu i ddarparu dysgu ar sut y gallwn gefnogi orau'r rhai sydd angen help i wneud a rheoli cais Credyd Cynhwysol<br><br>Nodyn - Dylai Datganiadau o Ddiddordeb gwmpasu nifer o wahanol elfennau o'r tabl canlynol. Dylai pob Datganiad o Ddiddordeb gwmpasu model ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, rhannu data a ffocws ar symud hawlwyr yn agosach at waith yn y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae pob agwedd arall ar dreialu yn agored i ddatblygu partneriaethau lleol, e.e. efallai y byddwch yn treialu PBS ond yn dewis peidio â threialu cynhwysiant digidol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio cael digon o sylw i bob elfen ar draws y safleoedd treialu i roi darlun cyffredinol cynhwysfawr ac felly yn annog cynigion sy'n cynnwys o leiaf 2 o frysbennu, PBS neu gynhwysiant digidol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyflenwi Gwasanaethau: Brysbennu</td></tr>
<tr><td>Yr hyn y byddwn yn ei dreialu ac/ neu ddatblygu ymhellach</td><td>Beth fydd y treial yn ei sefydlu a pha ganlyniadau rydym am brofi</td><td>Sylw'r treialu cadarn</td></tr>
<tr><td>Pa agweddau i frysbennu sy'n darparu gwasanaeth da ar gyfer yr hawlydd wrth ddeall y costau sy'n gysylltiedig â'r dull? Gall y gwahanol ddulliau o frysbennu gynnwys:<br>• brysbennu a ddarperir o 'hwb' neu siop un safle;<br>• brysbennu dros y ffôn; a<br>• brysbennu a ddarperir gan ddarparwyr ar wahân i'r prif bartneriaid.</td><td>Y dulliau mwyaf effeithiol o ganfod anghenion hawlydd drwy frysbennu ac wedyn yn eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir.<br>• Sut orau i nodi anghenion yr hawlydd ac ar y pwynt mwyaf priodol – gan ystyried cyswllt cyntaf a darparu brysbennu eto os bydd newid mewn amgylchiadau.<br>• Lefel yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol fodelau o frysbennu.<br>• Beth ddylai rôl darparwyr gwasanaethau eraill fod yn y broses.</td><td>Dewisol – ond mae angen i brysbennu gael ei dreialu mewn o leiaf 5 safle.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Canlyniadau dymunol:<br>• Gwell gwasanaeth ar gyfer yr hawlydd a llai o gost/adnoddau i'r bartneriaeth gan fod llai o gysylltiadau tro ar ôl tro ac mae'r hawlydd yn cael cefnogaeth wedi'i ddarparu yn gyflymachm:<br>o Bydd brysbennu yn nodi holl anghenion yr hawlydd ar hyn o bryd.<br>o Hawlydd yn cael eu cyfeirio/trosglwyddo i'r holl wasanaethau sydd eu hangen i gefnogi.<br>o Hawlwyr yn cael eu cyfeirio at gymorth sydd ei angen o fewn cyfnod amser rhesymol.<br>• Bydd hawlwyr sydd ddim angen Gwasanaethau Cymorth Lleol yn gallu hunanwasanaethu, ac nid ydynt yn gofyn am gefnogaeth oni bai bod newid mewn amgylchiadau.<br>• Nid yw newid mewn amgylchiadau yn arwain at sefyllfa o argyfwng (e.e. ôl-ddyledion rhent/dyledion/cosbau) h.y. model brysbennu yn galluogi cefnogaeth i hawlydd ar ôl eu cyswllt cyntaf.<br>• Mae staff yn cael eu hyfforddi ac yn gallu darparu brysbennu sy'n rhoi'r canlyniadau dymunol uchod.<br>• Data yn cael ei rannu rhwng sefydliadau i alluogi trosglwyddo. | |

<table>
<tr><th colspan="3">Cyflenwi Gwasanaethau: Cynhwysiant digidol – mynediad ar-lein a chymorth digidol</th></tr>
<tr><th>Yr hyn y byddwn yn ei dreialu ac/ neu ddatblygu ymhellach</th><th>Beth fydd y treial yn ei sefydlu a pha ganlyniadau rydym am brofi</th><th>Sylw’r treialu cadarn</th></tr>
<tr><td>Gwahanol ddulliau o ddarparu<br>• mynediad ar-lein.<br>• cefnogaeth ddigidol.<br>er mwyn galluogi’r hawlydd i wneud a rheoli eu cais ar-lein. Gall dulliau gynnwys:<br>• cefnogaeth cymheiriaid.<br>• nodi cyfleoedd i hawlwyr i brynu eu cyfarpar TG eu hunain am lai o gost.<br>• sut i wneud y defnydd gorau o IADs yn y Ganolfan Byd Gwaith.<br>• cynyddu mynediad WiFi.</td><td>Pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol i gael hawlwyr sydd ag ychydig neu ddim sgiliau digidol/mynediad i wneud a rheoli eu cais (neu weithgarwch tebyg i wneud cais am fudd-daliadau) ar-lein, gan gynnwys:<br>• faint o adnoddau sydd eu hangen i ddechrau yn erbyn faint o gefnogaeth tro ar ôl tro sydd ei angen i reoli eu cais.<br>• beth sy’n cynrychioli’r gwerth goraf am arian.<br>A wnaeth y gefnogaeth a roddwyd arwain i fwy o hawlwyr gael mynediad i wasanaethau (cymharol i wneud cais am Gredyd Cynhwysol) ar-lein?<br>Pa arbedion a gynhyrchwyd o ganlyniad i newid i’r sianel hon?<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Mwy o geisiadau (neu weithgarwch hunanwasanaethu eraill tebyg i wneud cais) yn cael eu gwneud ar-lein.<br>• Y gost i’r bartneriaeth o ddarparu gwasanaeth yn cael ei leihau gan ddefnydd cynyddol o ddigidol/TG fel sianel.<br>• Y gost i’r bartneriaeth o ddarparu cymorth TG yn cael ei leihau dros amser.<br>• Hawlydd wedi gwella sgiliau TG sy’n eu galluogi i wneud cais ar-lein (ac yn dangos symud yn agosach at waith).<br>• Hawlydd wedi gwella sgiliau TG sy’n eu galluogi i reoli cais ar-lein (ac yn dangos symud yn agosach tuag at waith).<br>• Hawlydd yn gallu cael mynediad at y TG sydd eu hangen arnynt i wneud a rheoli cais ar-lein.</td><td>Dewisol – ond mae angen i gynhwysiant digidol gael ei dreialu mewn o leiaf 5 safle.</td></tr>
</table>

| **Cyflenwi Gwasanaethau: Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol** | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn y byddwn yn ei dreialu ac/ neu ddatblygu ymhellach** | **Beth fydd y treial yn ei sefydlu a pha ganlyniadau rydym am brofi** | **Sylw'r treialu cadarn** |
| Dulliau gwahnol i annog manteisio ar gymorth a darparu'r gefnogaeth sy'n bodloni anghenion unigolion ar y pryd.<br><br>Sianeli a dulliau gwahanol i gyflwyno PBS, a allai gynnwys:<br><br>• wyneb-yn-wyneb.<br>• dros y ffôn.<br>• cefnogaeth grŵp. | • Sut i adnabod orau pryd fydd unigolion angen cefnogaeth.<br>• Y ffordd orau o gael bobl i fanteisio ar gymorth.<br>• Pa sianeli sydd fwyaf effeithiol wrth gyflwyno PBS.<br>• Sut y gall partneriaethau sicrhau bod anghenion hawlwyr yn cael eu diwallu o fewn ffiniau sydd wedi'u gosod/yn rhesymol.<br><br>Canlyniadau dymunol:<br><br>• Hawlydd yn llai tebygol o fod angen APA pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei weithredu.<br>• Hawlwyr yn gallu rheoli eu harian yn annibynnol (heb ôl-ddyledion/dyledion) (eu symud yn agosach i waith).<br>• Hawlwyr yn cael y deunydd ariannol cywir i fod yn annibynnol yn ariannol e.e. cyfrif banc, Debyd Uniongyrchol (eu symud yn agosach i waith).<br>• Partneriaeth yn gallu adnabod hawlwyr sydd angen cymorth PBS/cynhwysiant ariannol.<br>• Hawlwyr sy'n cael eu adnabod fel bod angen cymorth yn manteisio ar y cymorth a gynigir iddynt. | Dewisol **–** ond mae'n rhaid i gynhwysiant ariannol/PBS gael ei dreialu mewn o leiaf 5 safle. |

| **Gweithio mewn partneriaeth**<br>**Darparu sylfaen ar gyfer darparu'r gwasanaethau a nodir uchod.** | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn y byddwn yn treialu a /neu ddatblygu ymhellach** | **Beth fydd y treial yn ei sefydlu a pha ganlyniadau rydym am brofi** | **Sylw'r treialu cadarn** |
| Darparu gwasanaethau drwy fodelau gwahanol o weithio mewn partneriaeth, er enghraifft, ond nid yn gyfyngedig i:<br>• Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio â Chynghorau Sir yn Lloegr (ar ran amrywiaeth o Gynghorau eraill).<br>• Nifer fach o ALlau wedi cyfuno yn gweithio mewn partneriaeth gydag 1 neu fwy Ddosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau.<br>• Un Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac un ALl l yn gweithio mewn partneriaeth. | Gan adeiladu ar brofiad ac arfer da y DPDPs a'r cynlluniau peilot a arweinwyd gan ALl, yr heriau ac arfer da o fodelau partneriaeth gwahanol wrth gyflwyno'r Gwasanaethau Cymorth Lleol, felly rydym yn deall mwy am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim ar gyfer partneriaethau yn y dyfodol wrth gyflwyno Gwasanaethau Cymorth Lleol, gan gynnwys:<br>• Cael pob lefel o'r rhai sy'n rhan o bartneriaeth i ymrwymo i nod gyffredin a dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol ac i drefniadau llywodraethu effeithiol (gyda symud yr hawlydd yn agosach at waith mewn cof).<br>• Sut i weithio orau gydag amrywiaeth o ddarparwyr Gwasanaethau Cymorth Lleol, nid dim ond y rheini yn y bartneriaeth.<br>• Trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ac effeithlon.<br>• Prosesau trosglwyddo pan na ellir dod i gytundeb am benderfyniadau gan y bartneriaeth.<br>• Costau gweinyddu'r bartneriaeth a pha Ystadegau sydd ei angen i gefnogi'r bartneriaeth.<br>• Beth sy'n darparu'r sylfaen orau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymorth Lleol a gwasanaeth cydgysylltiedig ar gyfer hawlwyr.<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Partneriaeth yn cytuno ar nod cyffredin o symud hawlwyr yn m.<br>• Mae'r model partneriaeth yn cyflwyno darpariaeth gwasanaeth angenrheidiol ar gyfer hawlwyr ac nid yw'n creu pwysau ar adnoddau ychwanegol diangen.<br>• Mae gan y fodel partneriaeth brosesau gwneud penderfyniadau clir yn eu lle. | Angen – Rhaid i bob safle treialu model o weithio mewn partneriaeth – Bydd y ffocws ar ddulliau newydd o weithio mewn partneriaeth, gan adeiladu ar ddysgu sydd eisoes yn bodoli am bartneriaethau. Byddwn yn edrych am dreialon sy'n cynnwys y 3 enghraifft a roddir fel isafswm. Efallai y bydd mwy nag un treial yn defnyddio pob model i alluogi cymariaethau e.e. llwyddiant un Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac un ALl mewn ardal wledig yn erbyn ardal drefol. |

| | | |
|---|---|---|
| Sut y bydd y partneriaethau yn nodi ac yn cael ffynonellau ariannu posibl i gefnogi gwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. | • Ffordd orau i fapio cyllid sydd eisoes yn ei le.<br>• Y technegau mwyaf effeithiol ar gyfer nodi ffynonellau ariannu ar hyn o bryd neu yn y dyfodol ee ESF yn Lloegr ac osgoi ariannu dwbl.<br>• Sut i wneud penderfyniadau ar y cyd mewn ffordd effeithiol a defnyddio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Partneriaeth wedi cael yr holl arian sydd ar gael i gefnogi Gwasanaethau Cymorth Lleol.<br>• Partneriaeth gyda map cywir o'r arian a dderbyniwyd eisoes.<br>• Partneriaeth yn defnyddio ffrydiau ariannu presennol mewn ffordd newydd i gefnogi Gwasanaethau Cymorth Lleol lle bo hynny'n bosibl. | Dewisol **–** ond mae angen o leiaf 5 safle i dreialu hwn. |
| Gwahanol ddulliau o sut mae partneriaethau yn:<br>• asesu anghenion lleol.<br>• mapio gwasanaethau.<br>• nodi bylchau. | Adeiladu ar brofiad ac arfer da'r DPDPs a chynlluniau peilot a arweinwyd gan ALl i asesu, monitro ac adnewyddu mapio anghenion a gwasanaethau lleol, gan gynnwys, er enghraifft:<br>• Beth yw lefel yr adnoddau sy'n ymwneud â chynnal yr ymarfer yn erbyn cywirdeb/manylder yr allbynnau.<br>• Pa mor hawdd fyddai hi i ailadrodd yr ymarfer yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol.<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Partneriaeth gyda darlun cywir o'u hardal yn eu galluogi i gynllunio i gomisiynu/ymgysylltu â'r partneriaid cyflenwi cywir a gwella gwasanaeth i hawlwyr:<br>  o Partneriaeth wedi nodi a datrys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.<br>  o Partneriaeth yn darparu'r lefel gywir o ddarpariaeth gwasanaeth (nid dros/o dan gomisiwn). | Dewisol **–** ond mae angen o leiaf 5 safle i dreialu hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhannu data** rhwng y bartneriaeth a lle bo'n bosibl, er mwyn darparu gwasanaethau ar y cyd, cynnwys darparwyr gwasanaeth eraill a rhannu cymaint ag y bo modd yn electronig. | • Pa wybodaeth sydd angen ei rhannu rhwng sefydliadau er mwyn gweithredu Gwasanaethau Cymorth Lleol yn effeithiol.<br>• Pyrth cyfreithiol sydd eu hangen i sicrhau darpariaeth Gwasanaethau Cymorth Lleol effeithiol.<br>• Sut i oresgyn unrhyw faterion o ran rhannu data a sut i wneud hyn gydag adnodd isel, ffordd ddigidol lle bo hynny'n bosibl.<br>Canlyniadau dymunol (2 cyntaf yw'r deilliannau tymor hir)<br>• Y gallu i drosglwyddo'n hawdd rhwng darparwyr gwasanaethau.<br>• Rhannu data a alluogwyd gan dechnoleg rhwng darparwyr gwasanaethau i leihau'r adnoddau.<br>• Ffyrdd cadarn, cyfreithiol i rannu data o fewn y ddeddfwriaeth bresennol a nodwyd.<br>• Nodwyd opsiynau ar gyfer dulliau yn y dyfodol. | Angen **–** i ba raddau y bydd y bartneriaeth yn gweithredu dulliau arloesol o rannu data yn hyblyg. |
| **Cyd-leoli –** archwilio gwahanol ffyrdd y gall cyd-leoli cael eu gweithredu a. | • Edrych ar wahanol agweddau i gyd-leoli, yn cynnwys cyflenwi gwasanaethau rheng flaen fel brysbennu ble y gall helpu i adnabod dull cyfannol o anghenion cymorth drwy dim ar y cyd yn brosesu gwaith a all fod yn fwy effeithlon a chyfynnol yn ogystal a helpu i oresgyn rhai o faterion rhannu data traddodiadol.<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Dealltwriaeth glir os yw'r model o gyd-leoli a ddefnyddwyd yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys effeithiolrwydd trefniadau e.e. arbedion i'r ystad, prosesu yn y cefn.<br>• Galluogi ymyraeth cynnar effeithlon i gyflenwi taith/cymorth effeithiol cydlynol i'r hawlydd. | Dewisol **–** er y byddai'n hoffi cael amrywiaeth o enghreifftiau o gyd-leoli ar draws nifer o'r ceisiadau. |

| **Modelau ariannu** | | |
|---|---|---|
| **Yr hyn y byddwn yn treialu a /neu ddatblygu ymhellach** | **Beth fydd y treial yn ei sefydlu a pha ganlyniadau rydym am brofi** | **Sylw'r treialu cadarn** |
| Darparu cyllid i ganiatáu partneriaethau i brofi gwahanol fodelau ariannol:<br>• Y dull 'gweithgaredd,' 'canlyniad' a 'gwarantedig'.<br>• cyllid bloc. | Sut y mae partneriaethau yn gweithio orau gyda'i gilydd i benderfynu ar y defnydd o gyllid, gan gynnwys:<br>• Y ffordd orau i ddod i gytundeb o fewn y bartneriaeth i ddatblygu'r dull.<br>• Canran y rhaniad o'r elfennau o'r model gwarantedig/ gweithgaredd/canlyniad.<br>Y 'logisteg' o weithredu'r model, er enghraifft:<br>• Costau gweinyddu o weithredu'r model.<br>• Yr Ystadegau sydd ei angen.<br>• Rhwyddineb o gasglu data i gefnogi'r defnydd o'r model.<br>Canlyniadau dymunol:<br>• Niferoedd i gefnogi'r modelau cyllid yn galluogi cyllid cywir.<br>• Mae partneriaeth yn gallu defnyddio'r model cyllid heb gostau gweinyddol/adnoddau sylweddol. | Dewisol – ond rhaid i'r 2 fodel cael ei dreialu o leiaf ddwywaith er mwyn cymharu (felly o leiaf 4 partneriaeth sydd eu hangen i brofi model cyllid). |

# Atodiad B: Trosolwg o feysydd dysgu

| Rhif yr Elfen Dysgu | Disgrifiad o'r Elfen Dysgu |
|---|---|
| **1 – Safleoedd treialu cadarn** | • Nifer fach (tua 6) o safleoedd gwirfoddol i brofi'n 'gysgodol' dull ac egwyddorion y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol.<br>• Nodwyd trwy'r broses cynnig Datganiad o Ddiddordeb, gyda chymorth wedi'i dargedu at y rhai sydd â diddordeb mewn gwneud cais.<br>• Rhaid i bob cais gwrdd â'r holl meini prawf asesu gorfodol a dylai geisio cyflawni o leiaf dau o'r tri 'gwasanaethau' allweddol; brysbennu, PBS a chynhwysiant/mynediad digidol, a ategir gan un o'r modelau ariannol arfaethedig, er mwyn sicrhau bod digon o sylw i bob elfen ar draws y safleoedd treialu i roi darlun cynhwysfawr.<br>• Dylai pob cais gwmpasu model ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ehangach, rhannu data a ffocws ar symud hawlwyr yn agosach i waith yn y gwasanaethau maent yn eu darparu gyda phwyslais arbennig ar hawlwyr sydd ag anghenion cymhleth.<br>• Rhaid i'r safleoedd fod yn barod i gynhyrchu canlyniadau gwerthuso cadarn i fwydo i mewn i Achos Busnes Credyd Cynhwysol a Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol terfynol (Gwerthusiad wedi'i ariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau).<br>• Ni fydd safleoedd Credyd Cynhwysol gweithredol yn ffurfio rhan o'r elfen hon o'r treialu. |
| **2 – Safleoedd Treialu Anffurfiol** | • Nifer mwy o safleoedd gwirfoddol yn cyflawni eu treialu eu hunain – dim terfyn, dim Datganiad o Ddiddordeb.<br>• Dull ysgafn – nid treialu 'cadarn' a dim adnodd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwerthuso.<br>• Yn awyddus i gasglu dysgu – safleoedd yn cael eu hannog i nodi eu hunain a rhannu'r hyn maent yn ei wneud fel y gallwn rannu arfer da trwy fynediad i adnodd cyfyngedig ar-lein. |

| Rhif yr Elfen Dysgu | Disgrifiad o'r Elfen Dysgu |
|---|---|
| **3 – Safleoedd Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol gweithredol** | • Safleoedd Credyd Cynhwysol gweithredol yn cynnwys ehangu yng Ngogledd Orllewin Lloegr.<br>• Bydd ehangu Credyd Cynhwysol yn rhoi cyfle unigryw i ddysgu mwy am ddull Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol mewn amgylchedd byw – bydd niferoedd 'ansafonol' yn isel hyd nes bydd cwmpas yr hawlwyr yn ehangu, felly yn y lle cyntaf byddwn yn ceisio rhoi dull Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ysgafn i sicrhau cyflwyno parhaus a diogel Credyd Cynhwysol.<br>• Yn awyddus i ddysgu o gynigion creadigol partneriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau lleol i gefnogi hawlwyr ansafonol i wneud a rheoli cais am Gredyd Cynhwysol. |
| **4 – Datblygu Partneriaeth Barhaus** | • Gwaith yn mynd rhagddo ar draws pob partneriaeth i hybu eu paratoadau ar gyfer Credyd Cynhwysol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol gyda mwy o ffocws – dim cyfyngiad.<br>• Angen mesurau datblygu partneriaeth a cherrig milltir i fonitro cynnydd. |

# Atodiad C: Templed Datganiad o Ddiddordeb

Mae'r templed Datganiad o Ddiddordeb yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddewis ardaloedd i ymgymryd â threialu Gwasanaethau Cymorth Lleol wrth baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol. Caiff cyflwyniadau eu hystyried gan banel ar y cyd gan gynnwys Cymdeithasau Ardaloedd Lleol a Llywodraethau Cymru a'r Alban. Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yn gweithio yn agos gyda Rhaglen Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Argymhellir yn gryf bod partneriaethau yn darllen y prosbectws treilau Datganiad o Ddiddordeb a'r Cynllun Diweddariad a Threialu cyn cyflwyno fersiwn wedi'i gwblhau o'r templed hwn.

Bydd yr asesiad o geisiadau yn seiliedig ar y meini prawf a amlinellir yn **Atodiad Ch**.

Mae'r Datganiad O Ddiddordeb yn caniatáu i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Rhan 1: Manylion Awdurdod Lleol/Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Rhan 2: Crynodeb waith partneriaeth presennol.

Rhan 3: Crynodeb o'r treial arfaethedig.

Dylech ddychwelyd ein ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn diwedd y dydd ar **13 Mehefin 2014**.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch cais neu os oes angen fersiwn word o'r templed EOI arnoch, anfonwch e-bost i Dîm Fframwaith LSS DWP yn** lss.frameworkteam@dwp.gsi.gov.uk

## Rhan 1: Manylion yr Awdurdod Lleol/Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau

| | |
|---|---|
| **Enw'r awdurdod lleol Math o awdurdod** | |
| **Prif Weithredwr – enw** | |
| **Manylion cyswllt y Prif Weithredwr** | |
| **Arweinydd Profi a Threialu – enw** | |
| **Arweinydd Profi a Threialu – manylion cyswllt** | |
| **Dosbarth yr Adran Gwaith a Phensiynau** | |
| **Rheolwr Dosbarth – enw** | |
| **Rheolwr Dosbarth -manylion cyswllt** | |
| **Enw arweinydd profi a threialu** | |
| **Arweinydd profi a threialu – manylion cyswllt** | |

1. **Rhowch grynodeb byr o'ch cynnig, gan wneud yn glir pa elfennau o Atodiad A y byddwch yn treialu (gan gynnwys eich cynlluniau ar gyfer rhannu data a model cyllid) (hyd at 300 o eiriau)**

| |
|---|
| |

**2. Please provide a brief demographic overview of your area including:**
- **poblogaeth**
- **gwledig/trefol**
- **heriau penodol/mewnwelediadau ac ati (hyd at 300 o eiriau)**

Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei sgorio ond bydd yn cael ei defnyddio gan y panel i sicrhau lefel briodol o sylw ar draws pob maes.

## Rhan 2: Crynodeb o weithio mewn partneriaeth bresennol

**3. Disgrifiwch y prosesau cyfredol/enghreifftiau o ymarfer da/partneriaethau sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys sefydliadau Trydydd Sector) yn eu lle i gefnogi hawlwyr sydd ag anghenion cymhleth[3] neu sydd angen cymorth ychwanegol (hyd at 500 o eiriau)**

[3] Mae anghenion cymhleth yn golygu hawliwr sydd angen cymorth manwl a pharhaus ac na ellir eu datrys gan un trafodiad neu gyswllt penodol. Am ragor o wybodaeth gweler t.24 o#r ddogfen UC Local Support Services Framework a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/181395/uc-local-service-support-framework.pdf

4. **Dywedwch wrthym am unrhyw weithgareddau/prosiectau eraill rydych yn ymgymryd â hwy a allai effeithio neu fod yn gysylltiedig â'ch cynnig i dreialu gwasanaethau cymorth lleol a/neu sy'n cyrraedd hawlwyr sydd ag anghenion cymhleth neu rhai sydd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft teuluoedd cythryblus. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

## Rhan 3: Crynodeb o'r treial arfaethedig

5. **Eglurwch sut y bydd y bartneriaeth arweiniol yn cael ei sefydlu a sut rydych yn bwriadu i weithio gyda'ch gilydd i reoli cyflwyno gwasanaethau a chyllid, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o gyd-leoli, trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau datrys anghydfod. Rhaid i unrhyw ddiagramau neu siartiau sefydliadol gael eu cynnwys o fewn y terfyn geiriau a nodir. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

6. **Disgrifiwch sut y bydd eich partneriaeth yn cyflenwi siwrnai cwsmer cydlynol ac ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi eraill. Sicrhewch eich bod yn atodi'r llythyr cadarnhau o bob sefydliad i'ch cais. Ni chaiff unrhyw geisiadau nad ydynt yn cynnwys llythyrau cadarnhau o sefydliadau a enwir eu gwerthuso. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

7. **Esboniwch mwy am agweddau o'r ddarpariaeth gwasanaeth (brysbennu, PBS, digidol) rydych yn bwriadu ei dreialu. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

8. **Amlinellwch pa ganlyniadau y mae eich partneriaeth yn disgwyl eu cyflawni, sut y caiff y rhain eu mesur a sut y bydd y bartneriaeth yn sicrhau bod y data yn gadarn. Dylech gynnwys maint tebygol y treial arfaethedig ac unrhyw gyfleoedd i adeiladu grwpiau rheoli neu samplu ar hap. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

9. Rhowch gynllun gweithredu clir, gan gynnwys gweithgareddau allweddol a llinell amser i ddangos sut y bydd eich partneriaeth yn paratoi i ddechrau cyflenwi'r treial arfaethedig erbyn mis Medi 2014. (Hyd at 500 o eiriau)

| |
|---|
| |

10. Dywedwch wrthym pa fuddion posibl y byddwch yn eu rhagweld o ganlyniad i dreialu'r Gwasanaethau Cymorth Lleol a gweithio mewn partneriaeth, unrhyw gostau disgwyliedig a sut mae eich cynnig yn dangos gwerth am arian. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, effeithlonrwydd ariannol neu adnoddau. (Hyd at 500 o eiriau)

| |
|---|
| |

11. Darperir arian ar gyfer costau gwerthuso, rheolwr prosiect a chostau gweinyddol rhesymol sy'n gysylltiedig â'r treial. Y tu hwnt i hyn, efallai bydd swm cyfyngedig o gyllid ychwanegol ar gael i gefnogi treialu pellach, er enghraifft, ar gyfer darparu gwasanaeth ychwanegol . Dywedwch wrthym pa arian penodol ychwanegol y gallai fod angen arnoch, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a pham nad yw cyllid presennol yn ddigonol. Nodwch sut y byddech yn addasu eich cynnig os nad oes arian ychwanegol yn cael ei ddarparu. (Hyd at 500 o eiriau)

| |
|---|
| |

**12. Dywedwch wrthym am unrhyw ffrydiau ariannu eraill mae gennych chi a/neu eich partneriaid fynediad atynt er mwyn cyfrannu tuag at eich cynnig a sut y gall cynlluniau partneriaeth reoli'r cyllid. (Hyd at 500 o eiriau)**

| |
|---|
| |

## Datganiad

### Datganiad gan yr ymgeisydd

Gallaf gadarnhau y bydd unrhyw arian a dderbynir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cymryd rhan yn y treialon Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol ond yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau ar wahân sy'n ychwanegol neu'n eithriad i'r arferion presennol sefydledig sydd gan y bartneriaeth leol.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn barod i ddarparu data y gofynnwyd amdano i alluogi gwerthusiad o'r prosiect.

Rwyf yn cadarnhau na fydd canlyniadau unrhyw treialu a wneir yn cael ei rhannu'n ehangach hyd nes y bydd y canfyddiadau wedi cael eu cytuno a'u llofnodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i unrhyw ganfyddiadau fod ar gael mewn ffordd gydlynol a phrydlon.

### Dylai'r ddau bartner arweiniol lofnodi'r cais

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | |
| Teitl y swydd | |
| Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | |
| Teitl y swydd | |
| Dyddiad | |

Diolch am lenwi'r ffurflen gais ar gyfer treialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. E-bostiwch eich cais i Fewnflwch Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol: LSS.FrameworkTeam@dwp.gsi.gov.uk.

Cewch e-bost i gydnabod eich cais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cais yn y cyfamser, cysylltwch â'r tîm Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau neu gyswllt eich Cymdeithas Awdurdodau lleol, drwy ddefnyddio'r manylion a ddarperir ar ddechrau'r templed.

# Atodiad Ch: Proses Asesu a Meini Prawf y Datganiad o Ddiddordeb

## Cyfranogwyr y Panel Asesu

Dewiswyd aelodau'r panel ar sail eu profiad a'u gwybodaeth yng nghyd-destun Gwasanaethau Cymorth Lleol ac i ddarparu barn gytbwys ac ystyriol at ddewis cynigion treialu Gwasanaethau Cymorth Lleol cadarn yn llwyddiannus. Bydd y panel yn cynnwys aelodau o'r sefydliadau/meysydd canlynol:

- LGA
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- COSLA
- DCLG
- Llywodraeth yr Alban
- Llywodraeth Cymru
- Tîm Cyswllt ALl yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Strategaeth Gwasanaethau Cymorth Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Grŵp Masnachol yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Dadansoddi Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Meini Prawf Asesu

Bydd y panel yn defnyddio meini prawf asesu a gytunwyd i werthuso ceisiadau. Bydd proses fesul cam yn cael ei ddefnyddio, fel y nodir isod.

Ni ddylai partneriaethau ragori ar y terfyn geiriau a nodir ar gyfer pob cwestiwn ar y templed EOI. Ni fydd y panel yn asesu unrhyw wybodaeth a ddarperir y tu hwnt i'r terfyn geiriau a roddir.

### Cam 1

**Rhaid i ddatganiadau o ddiddordeb partneriaeth gyflawni'r meini prawf cymhwysedd isod yn eu cyfanrwydd. Lle nad yw unrhyw un o'r rhain yn cael eu bodloni, ni fydd ceisiadau yn cael eu gwerthuso ymhellach:**

- Cyflwynir y Datganiad o Ddiddordeb **ar y cyd** wedi'i lofnodi gan y bartneriaeth Canolfan Byd Gwaith/Awdurdod Lleol
- Gall y bartneriaeth ymrwymo i'r gweithgarwch gwerthuso gofynnol o gyflenwi'r treialon a chanlyniadau gan gynnwys darparu, fel isafswm, 6 adroddiad misol o ddysgu, gydag adroddiadau ysgafn bob yn ail fis;
- Gall y bartneriaeth ymrwymo i ddechrau'r treialon Gwasanaethau Cymorth Lleol erbyn 1 Medi 2014 fan bellaf;
- Mae'r bartneriaeth wedi darparu tystiolaeth/enghreifftiau o gydweithio ar achlysuron blaenorol, er mwyn darparu sylfaen ar gyfer y treial;

- Mae'r bartneriaeth wedi amlinellu sut y byddant yn bwriadu rhannu data o fewn y ddeddfwriaeth bresennol yn ddiogel; ac
- Os yn gweithio gyda phartneriaid eraill, mae'n rhaid atodi llythyrau o gefnogaeth ganddynt.

### Cam 2

Ar gyfer y meini prawf asesiad 1-5 a 8-13 isod, caiff tystiolaeth o gynigion Datganiad o Ddiddordeb gael eu graddio drwy ddefnyddio'r raddfa asesu syml:

0 - Methu â bodloni'r gofyniad yn gyfan gwbl

1 - Bodloni rhywfaint o'r gofyniad

2 - Bodloni'r  rhan fwyaf o'r gofyniad

3 - Bodloni'r gofyniad yn llawn

4 – Yn uwch na'r gofyniad

### Cam 2a

- Bydd y panel yn gyntaf yn edrych ar feini prawf (1)-(5) a fydd yn ein galluogi i adnabod y ceisiadau sydd â digon o sylw i wasanaethau a bydd yn darparu'r dysgu gofynnol.
- Mae'n rhaid I'i EOI sgorio 2 neu uwch ar:
    - o dau allan o dri o'r meini prawf canlynol: (1), (2) neu (3); a
    - o meini prawf (4) a (5).
- Mae hyn yn golygu na fydd yr EOI yn cael ei asesu ymhellau os yw'n sgorio 0 neu 1:
    - o ar fwy nag un o (1), (2) neu (3); a/neu
    - o ar unai (4) a (5) neu'r ddau.

| | **Meini Prawf** |
|---|---|
| **1** | Mae'n disgrifio cynnig gwasanaeth sy'n nodi ac yn asesu anghenion hawlwyr yn effeithiol |
| **2** | Mae'n disgrifio cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi hawlwyr sydd angen mynediad ar-lein a chefnogaeth ddigidol yn effeithiol |
| **3** | Mae'n disgrifio cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi hawlwyr sydd angen cyngor a chymorth cyllidebu yn effeithiol |
| **4** | Mae'n disgrifio cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi hawlwyr ag anghenion cymhleth yn effeithiol |
| **5** | Yn disgrifio pa ganlyniadau y byddant y disgwyl eu cyflenwi a sut y cânt eu monitro a'u mesur yn gadarn. |

- Cyn belled â bod y safon ofynnol yn cael ei fodloni, bydd y set nesaf o feini prawf ar gam 2b yn cael eu hystyried.

### Cam 2b

- Yna bydd y panel yn edrych ar feini prawf (6) a (7) gyda'u gilydd
- Ar gyfer y meini prawf hyn yn unig, bydd y sgorio canlynol yn cael ei ddefnyddio:
  - o 3 – Treial Rheoli Ar Hap
  - o 2 - Mae grŵp rheoli tebyg yn cael ei awgrymu (ee rhannu yn ôl cod post neu Gymdeithas Tai gyda rhywfaint o allu i wirio nodweddion grwpiau rheoli a threialu sy'n debyg)
  - o 1 - Dim grŵp rheoli delfrydol ond mae data gwaelodlin cyn-treial da ar gael sy'n rhoi rhywfaint o ffordd i fesur effeithiau.
  - o 0 - Dim gwaelodlin neu wybodaeth grŵp cymhariaeth ar gael.
- Rhaid i'r EOI sgorio 1 neu'n uwch gan ddefnyddio'r raddfa yn union uwchben i gael ei ystyried ymhellach. Lle nad yw'n gwneud hynny, bydd yn cael ei roi ar restr wrth gefn a gellir ei ailystyried os nad yw'r rhestr derfynol o Datganiadau o Ddiddordeb yn rhoi digon o sylw i dreialu elfennau ac mae Dadansoddwyr UC yn credu y gallai ffurf y treial gael ei chryfhau.

| | **Meini Prawf** |
|---|---|
| **6** | Bydd y treial yn cynnwys grwp rheoli |
| **7** | Bydd y treial yn cynnwys samplu ar hap |

### Cam 2c

- Yna bydd y panel yn edrych ar feini prawf (8)-(13) a sgorio'r rhain gan ddefnyddio'r system safonol 0-4 a ddangosir yng ngham 2.

| | **Meini Prawf** |
|---|---|
| **8** | Mae'n disgrifio cynnig gwasanaeth sy'n nodi ac yn optimeiddio ffrydiau ariannu presennol i ddarparu gwasanaethau'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol |
| **9** | Taith hawlydd Cydlynol[4] gan gynnwys Tai (landlordiaid cymdeithasol) a Sefydliadau yn y Sector Gwirfoddol a Chymunedol |
| **10** | Yn cymryd rhan/wedi ymlynu gyda mentrau eraill a gallai fod yn briodol i'r Gwasanaeth Cymorth Lleol ac sy'n cyrraedd ymgeiswyr bregus a chymhleth, fel teuluoedd cythryblus. |
| **11** | Gwasanaethau/ymyriadau a gyflwynir (PBS a digidol) yn cynnwys cefnogaeth/gweithgareddau a all helpu i ddod â hawlydd yn agosach i waith |

[4] Trefniadau lleol ar gyfer sicrhau bod asiantaethau sy'n cefnogi hawlwyr sydd ag anghenion cymhleth, i wneud cais am a rheoli eu cais Credyd Cynhwysol, yn gweithio i un cynllun, lefel uchel, sy'n cael ei deilwra i anghenion yr hawlydd unigol. Y nod yw sicrhau bod cymorth a gwasanaethau yn gyfannol, cydgysylltiedig ac osgoi trosglwyddiad diangen, ac nad yw hawlwyr yn cael negeseuon anghyson gan wahanol asiantaethau.

| | |
|---|---|
| **12** | Yn rheoli cyllid ar lefel partneriaeth |
| **13** | Dangos gwerth am arian (asesu effaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer hawlwyr ac ar yr ardal leol) |

## Cam 2d

- Yna bydd cyfanswm, yn seiliedig ar y sgoriau a roddir ym mhob meini prawf (1)-(13), yn cael ei ddyrannu i bob EOI sydd wedi bodloni'r camau uchod yn cael ei ddyrannu i bob EOI sydd wedi bodloni'r camau uchod.
- Yna bydd yr EOI yn cael eu rhestru, gyda'r un sydd ar sgor uchaf ar y brig.

## Cam 3

Yna bydd y rhestr raddedig (sgôr uchaf yn gyntaf) yn cael ei ystyried yn erbyn y meini prawf cyffredinol isod, er mwyn darparu'r ystod angenrheidiol o enghreifftiau a mwyhau dysgu o'r treialon.

Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried yw:

- Daearyddiaeth y bartneriaeth - lleoliadau trefol/gwledig;
- Statws a photensial cyd-leoli;
- Proffil demograffig y bartneriaeth - e.e. oedran, hil, rhyw, lefel addysg, statws economaidd a chyflogaeth a
- Ystod o wasanaethau allweddol a chwmpas Atodiad A; a
- Maint treial (2000 hawlwyr yn y grŵp driniaeth yw'r nifer delfrydol i wneud y gorau o'r dysgu ond cydnabyddir na fydd hyn yn bosibl ym mhob partneriaeth Datganiadau o Ddiddordeb)

Gall hyn olygu y bydd partneriaeth sydd â sgôr tebyg neu ychydig yn is i un arall gael ei ddewis gan ei fod yn darparu grŵp demograffig arall neu ddaearyddol i bartneriaid eraill a ddewiswyd ar gyfer treialu. Er enghraifft, ni fyddwn yn dewis 6 partneriaeth mewn lleoliadau trefol os byddant yn sgorio'n uwch o ran bob Datganiad o Ddiddordeb. Bydd angen i ni edrych ar bartneriaethau sy'n sgorio'n uchel mewn ardaloedd gwledig i ddod a sylfaen tystiolaeth wahanol.

# Atodiad D: Meini prawf llwyddiant Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer Credyd Cynhwysol

Bwriad Credyd Cynhwsol yw cyflwyno system les decach a mwy fforddiadwy sy'n mynd i'r afael â thlodi, diweithdra, dibyniaeth ar les ac yn helpu pobl i mewn i waith. Mae ganddo dri phrif nod:

- Helpu hawlwyr a'u teuluoedd i reoli eu budd-daliadau a chyflogau yn annibynnol, a lle bo'n bosibl i ddod yn annibynnol o'r wladwriaeth;
- Cau'r bwlch rhwng y profiad o fod yn ddi-waith a bod mewn gwaith a derbyn cyflog; a
- Gwneud i waith dalu fel bod pobl bob amser yn well eu byd mewn gwaith.

Bydd Credyd Cynhwsol yn creu cyfle i gynyddu cynhwysiant digidol ac ariannol i helpu hawlwyr a'u teuluoedd i ddod yn fwy annibynnol.

Er mwyn cyflawni ei nodau strategol, bydd angen i Gredyd Cynhwsol:

- Uchafu'r nifer o bobl sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol gyda ffocws ar gyflogaeth;
- Dileu rhwystrau i gyflogaeth yng ngweithrediad y system lles;
- Hysbysu'r cyflwyno o wasanaethau ar ôl 2013;
- Symud hawlwyr tuag at hunanwasanaeth ac awtomeiddio ac i ffwrdd o wasanaeth wyneb yn wyneb;
- Symud hawlwyr tuag at hunangynhaliaeth ac annibyniaeth ariannol;
- Lleihau costau gweinyddu; a
- Lleihau twyll a chamgymeriadau.

Rhaid i wasanaethau cymorth lleol canolbwyntio ar gyflawni deilliannau priodol ar gyfer hawlwyr, cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Er y bydd unigolion yn cyflwyno heriau penodol, ac felly mae angen llwybr wedi'i deilwra i ddod â hwy yn agosach at y farchnad lafur, y meini prawf cyffredinol ar gyfer llwyddiant yw:

- Adeiladu gwasanaeth y gall hawlwyr, asiantau a chyfryngwyr ystyried yn hawdd defnyddio, yn hawdd i'w deall ac yn hawdd cael mynediad iddo – gan roi hyder iddynt yn y system;
- Helpu unigolion, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol, er mwyn gwneud a rheoli cais am Gredyd Cynhwysol;
- Darparu gwasanaeth cymorth cydgysylltiedig a chyfannol i hawlwyr gan sicrhau cyn lleied o drosglwyddiadau rhwng gwahanol asiantaethau;
- Gwella yn sylweddol y cymhellion i weithio a'r gydnabyddiaeth bod gwaith yn talu; a
- Cynyddu nifer y bobl mewn gwaith o'i gymharu â'r pwynt cyfatebol y cylch economaidd blaenorol

Mae Credyd Cynhwysol hefyd yn creu cyfleoedd newydd ar lefel leol ar gyfer gwasanaethau newydd, fel:

- Brysbennu a chyfeiriadedd **–** mynd i'r afael â chyswllt cychwynnol gan hawlwyr ac unrhyw symudiad dilynol at wasanaethau priodol i ddiwallu eu hanghenion;
- Cymorth ar-lein a chynhwysiant digidol – galluogi hawlwyr i wneud a chynnal eu cais trwy fynediad ar-lein; a
- Cymorth ariannu **–** cefnogaeth i hawlwyr sydd angen cymorth ychwanegol gyda chymorth cyllidebu a chynnyrch ariannol i'w helpu i ymdopi â'r newidiadau ariannol y bydd Credyd Cynhwysol yn dod.

Nod y rhai sy'n darparu gwasanaethau o dan y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol bydd i greu, lle bo'n bosibl, taith gydlynol o ddibyniaeth i hunanddigonolrwydd a'u symud yn agosach i waith, cyn belled ag y bo modd, y tu ôl i hyn y dylai holl ddarparwyr gwasanaeth gael eu halinio.

I'r perwyl hwn, rhagwelir y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid chyflenwi yn nodi'r canlyniadau penodol sy'n ofynnol ar gyfer hawlwyr unigol i'w helpu i symud yn agosach at y farchnad lafur ac annibyniaeth ariannol.

Gall hawlwyr sydd â gofynion mwy cymhleth fod angen mwy o gefnogaeth, gan nifer o wahanol asiantaethau, o'r cychwyn cyntaf. Ar gyfer yr hawlwyr hyn, bydd yr aliniad priodol o wasanaethau y tu ôl i daith hawlydd cydlynol yn hanfodol er mwyn eu helpu i'w symud yn agosach at annibyniaeth, cyfranogiad mewn gweithlu a chynhwysiant cymdeithasol llawn.

Er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn, rydym yn rhagweld y bydd partneriaethau cyflenwi lleol yn dymuno cynnwys y gwasanaethau presennol a newydd a amlinellir yn Adran 3 o'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013.

Mae gwersi pwysig diweddar a ddysgwyd gan gynlluniau peilot a arweinwyd gan yr ALl wedi arwain at ddatblygu enghraifft werthfawr o gyflwyno arfer da sy'n adeiladu ar gynnwys y fframwaith drwy ddefnyddio amgylchedd byw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ni ddylai cytundebau partneriaeth o dan y fframwaith ddiystyru amrywiaeth leol ac arloesi gan ymagwedd or-ragnodol i'r cynnig lleol. Dangosir enghraifft o arfer da gan gynlluniau peilot a arweinit gan ALl yn **Atodiad Dd** a dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu cynigion ar gyfer treialu Gwasanaethau Cymorth Lleol.

# Atodiad Dd: datblygwyd Enghraifft o Arfer Da gan gynlluniau peilot a arweinwyd gan yr ALl

